

Prosiect 1 - Methodoleg Seiliedig ar Risg (MSR)

Trosolwg- Datblygwyd y Fethodoleg Seiliedig ar Risg (MSR) i ddylunio dull cenedlaethol, yn seiliedig ar risg, o fonitro arfordirol yng Nghymru. Byddai'n cydlynu ac yn gwella cysondeb casglu data arfordirol, a hefyd yn helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau strategol wrth bennu safleoedd risg uchel.

I fesur y risg sy'n gysylltiedig â phob uned polisi Cynllun Rheoli Traethlin (CRhT), penderfynwyd ar sgôr yn seiliedig ar dri ffactor:

1. Polisiâu a Chynlluniau
2. Risg Asedau
3. Prosesau Arfordirol (llifogydd ac erydu arfordirol)



Ffig.2 Map gwres poblogaeth a delweddu 3D o sgoriau MSR. Mae adrannau coch tywyll/talach yn cynrychioli'r risg uchaf, mae adrannau gwynnach/is yn cynrychioli risg is. Sylwer ar y cydberthynas rhwng dwysedd poblogaeth a blaenau risg uchel yn D/G Cymru ill dau.



Ffig.1 Ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar sgôr MSR ac arddangosiad o'r byfferau Model Risg Llifogydd Llanw (glas) ac erydu (brown) a ddefnyddir i gipio a mesur risgiau i asedau yn y Mwmbwls, Abertawe.

Nod/Amcan – Dylunio dull cenedlaethol, yn seiliedig ar risg, o fonitro arfordirol, fyddai'n gost-effeithiol, yn blaenoriaethu buddsoddiad trwy ddarparu data cyson a di-dor i ddefnyddwyr terfynol ac yn gwella sgiliau yn seiliedig ar wybodaeth, ac adeiladu partneriaethau ag Awdurdod Rheoli Risg.

Pwy/Cydweithio – Canolfan Monitro Arfordirol Cymru

Canlyniadau – Mae WCMC wedi sefydlu rhaglen casglu data barhaus a gynlluniwyd ar sail yr MSR